

Os oes gan unrhyw un ohonoch lun o wasanaeth Nadolig y plant yn Neiniolen neu Llanberis ar gyfer y wefan a wnewch chi ei anfon ataf os gwelwch yn dda. Gellir ei anfon trwy e-bost i [john.cilfynydd@btinternet.com](mailto:john.cilfynydd@btinternet.com)

Beth am roi gwybod i ffrindiau a theulu am y wefan? Gall fod yn arbennig o werthfawr i bobl o'r ardal sy'n byw mewn rhannau eraill o'r wlad neu mewn gwledydd eraill.

## Banc Bwyd

Mae blwyddyn ers i ni osod y bocs bwyd yn y cyntedd yn Capel Coch ar gyfer Banc Bwyd Caernarfon. Diolch am eich haelioni dros y flwyddyn ddiwethaf a bydd y bocs yn aros yno eleni eto, a chyfle felly i ni ddal i gefnogi'r gwaith hwn. Mae croeso i unrhyw un roi bwyd yn y bocs.

Dyma'r math o bethau a dderbynnir: Llefriith UHT neu bowdr - Siwgr - Sudd ffrwythau - Cawl tun - Pasta - Tuniau tomatos - Grawnfwyd - Siocled - Tuniau

## Y mis nesaf - Deiniolen

### Ionawr 12

10.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Cyfarfod Gweddi  
Dechrau'r Flwyddyn

### Ionawr 19

10.00 a.m. - Gwasanaeth Teulu  
5.00 p.m. - Y Gweinidog

### Ionawr 26

10.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Canon Idris Thomas  
Deiniolen

pwdin reis - Bagiau te - Coffi - Reis - Powdwr tatws stwnsh - cig tun - jam - ffrwythau tun - bisgedi.

## Cyhoeddiadau

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Dydd Mawrth, Ionawr 14:** Pwyllgor swyddogion Ebeneser am 10.00 o'r gloch yn Nhy Elidir.

**Dydd Sul, Ionawr 19:** Gwasanaeth Teulu am 10.00 o'r gloch ac oedfa dan ofal y Gweinidog am 5.00 o'r gloch.

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Nos Fawrth, Ionawr 14:** Cymdeithas Undebol am 7.00 o'r gloch.

**Nos Wener, Ionawr 17:** CIC yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch.

**Dydd Sul, Ionawr 19:** Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Mr Euron Hughes, Llanfachreth. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Reuben Roberts, Bontnewydd.

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Ionawr 19:** Ni fydd oedfa.

## Y mis nesaf - Llanberis

### Ionawr 12

10.00 a.m. - Y Gweinidog  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

### Ionawr 19

10.00 a.m. - Mr Euron Hughes  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Parchg Reuben Roberts

### Ionawr 26

10.30 a.m. - Gwasanaeth Teulu  
5.00 p.m. - Y Gweinidog



# Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris  
Rhif 574– Dydd Sul, 12 Ionawr, 2014

## Taith un ffordd

Galwch fi'n anwybodus; galwch fi'n amheuw'r. Ond mae'n anodd credu y bydd yr holl fyd yn sôn am Ryan MacDonald yn 2025. Wrth gwrs, mae deuddeng mlynedd cyn hynny a does wybod beth a ddigwydd yn y cyfamser. Ond ar hyn o bryd, mae Mr MacDonald ei hun yn gobeitho y bydd pawb yn gwybod amdano bryd hynny.

Mae enw Ryan MacDonald ar restr fer o bobl ar gyfer taith i'r blaned Mawrth. Fe ymatebodd dros 78,000 i hysbyseb prosiect 'Mars One' am bobl a fydd ymhlith y teithwyr cyntaf i'r blaned honno. Roedd Ryan yn un ohonynt. Ond gan fod mil o bobl ar y rhestr 'fer' honno mae ganddo fo a'r 999 arall ffordd hir i'w cherded cyn y byddan nhw ymhlith y 24 a fydd yn hyfforddi am saith mlynedd ar gyfer y daith. Ac o'r 24, dim ond 4 a fydd yn gadael y Ddaear fis Ebrill 2024 ac yn glanio ar Fawrth ddechrau 2025. Ond breuddwyd Ryan yw bod yn un ohonynt gan sicrhau y bydd cenedlaethau o bobl yn gwybod amdano ac yn ei gofio fel un o ymsefydlwyr cyntaf y blaned bell honno.

A'r gair 'ymsefydlwyr' sy'n gwneud y stori hon yn gyffrous ac yn drist yr un pryd. Oherwydd yn wahanol i'r hyn a ddigwyddodd pan deithiodd Neil Armstrong i'r lleud, 'dyw prosiect 'Mars One' ddim yn bwriadu dod â'r teithwyr cyntaf hyn, na'r bobl a fydd yn eu dilyn i blaned Mawrth, yn ôl i'r Ddaear. Teithiau un-ffordd fydd 'Mars One' yn eu trefnu.

Er gwaethaf hynny, mae'r syniad o wneud y daith yn amlwg yn ddigon cyffrous i apelio at o leiaf 78,000 o bobl. Mae rhywbeth trist yn y ffaith bod cymaint o bobl yn cael eu denu gan y posibilrwydd o adael y byd a phawb a phopeth sydd ynddo am byth. Ond byddai'r bobl hynny, a phawb sy'n rhan o 'Mars One', yn dadlau mai'r ysbryd anturus hwn a wnaeth i bobl fentro erioed i rannau dieithr a phellennig y ddaear hefyd.

Fedra i ddim deall beth sy'n cymell Ryan MacDonald a'i debyg. Ac eto, wrth glywed amdano caf f'atgoffa am rai o'r cenhadon a deithiodd o Gymru i bob rhan o'r byd pan oedd cyrraedd y manau hynny (a dod nôl ohonynt) yn wahanol iawn i'r hyn ydyw heddiw. Gadawodd rhai ohonynt gartref, teulu a ffrindiau i fynd â'r Efyngyl i bobl nad oedd wedi ei chlywed o'r blaen. Nid oedd ganddynt sicrwydd y deuent yn ôl o'r teithiau hynny, a'r gwir yw na ddaeth llawer ohonynt adref o gwbl. Dyna, er enghraifft, fu hanes John Davies, a deithiodd o Faldwyn i Tahiti yn 1800 ac aros yno hyd ei farwolaeth yn 1855. Felly hefyd David Jones o Geredigion, a aeth i Fadagascar yn 1818, yn 22 mlwydd oed. Bu farw ei wraig a'i blentyn, a'i gydweithiwr Thomas Bevan a'i wraig a'i blentyn yntau, o'r malaria wedi cyrraedd yno; ond arhosodd David Jones ar y maes cenhadol hyd ei farwolaeth yn 1841. A'r cymhelliad dros y teithiau un ffordd hynny oedd cyflwyno Crist yn Arglwydd a Gwarddw'r i bobl y byd.

Gofalaeth Unedig  
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnysaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Heddiw

Croeso i oedfaon Sul cyntaf y flwyddyn newydd. Gweddiwn am fendith Duw ar ein haddoliad trwy'r dydd a thrwy'r flwyddyn ar ei hyd.

Bydd yr Ysgol Sul yn Neiniolen am 10.15 o'r gloch; a chynhelir Cyfarfod Gweddi Dechrau Blwyddyn am 5.00 o'r gloch.

Byddaf fi'n arwain yr oedfa yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 ac Oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

## Cofion

## Cymdeithas Undebol

Cynhelir cyfarfod nesaf Cymdeithas Undebol Llanberis am 7.00 o'r gloch nos Fawrth, Ionawr 14. Y Prifardd Ieuan Wyn, Bethesda fydd yn annerch ar y testun, 'Tywysogion Gwynedd a'u Hetifedd'. Bydd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod hwn.

## Dosbarth Beiblaidd

Cynhelir Dosbarth Beiblaidd nesaf yr Ofalaeth nos Fercher, Ionawr 22.

## Pwyllgor Efe

Cynhelir Pwyllgor Ymddiriedolwyr Cynllun Efe yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos yfory, nos Lun, Ionawr 13.

## Rehoboth

Mae aelodau Rehoboth, Nant Peris wedi penderfynu cynnal un oedfa'r mis fyn unig yn Rehoboth yn ystod 2013 ac ymuno â'r addoliad yn Capel Coch ar y Suliau eraill. Edrychwn ymlaen at gael eu cwmni yn Capel Coch mor aml â phosibl.

Cynhelir yr oedfa yn Rehoboth am 2.00 o'r gloch ar y Suliau canlynol. Os bydd unrhyw newid i'r rhestr hon caiff ei hysbysu mewn da bryd yn *Gronyn*.

Ionawr 26  
Chwefror 9  
Mawrth 9  
Ebrill 13  
Mai 11  
Mehefin 8  
Gorffennaf 13  
Medi 14  
Hydref 12  
Tachwedd 9  
Rhagfyr 14

## CIC

Bydd CIC yn ailddechrau yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Wener nesaf, Ionawr 17.

## Cyfarfod Chwarter

Cynhelir Cyfarfod Chwarter nesaf Annibynwyr Gogledd Arfon dan nawdd eglwys Saron, Llanwnda nos Fercher, Ionawr 29.

Sylwch mai yn Ysgol Felinwnda ac nid yn y capel y bydd y cyfarfod hwn.

Yn y Gyfeillach yn ail ran y cyfarfod byddaf fi'n arwain gwasanaeth y Cymun.

## Pwyllgor

Bydd Swyddogion Ebeneser a Grŵp Datblygu Deiniolen yn cyfarfod mewn pwyllgor yn Nhy Elidir am 10.00 o'r gloch fore Mawrth, Ionawr 14.

## Gwerthu Capel Coch

Yn dilyn y drafodaeth â swyddogion Henaduriaeth Arfon dro'n ôl yr ydym wedi anfon y cais ffurfiol am ganiatâd i werthu prif adeilad Capel Coch a chadw a gwella'r festri.

Bu raid i ni gyflwyno'r cais hwn er bod gennym cyn hynny ganiatâd i werthu'r holl adeiladau. Nid ydym yn rhagweld unrhyw broblem o ran cael caniatâd gan fod yr Henaduriaeth yn cefnogi ein cais.

Nid ydym yn gwybod faint o amser fydd rhaid i ni ddisgwyl cyn y medrwn roi'r capel ar werth. Gobeithiwn na fydd yn hir o gwbl. Ond rydym am roi gwybod i chi beth sy'n digwydd. Ar hyn o bryd, felly, nid yw'r capel yn swyddogol ar werth, ond unwaith y daw'r caniatâd angenrheidiol bydd yn cael ei roi ar werth.

## Amlenni casglu

Os oes unrhyw un o aelodau Capel Coch angen rhagor o amlenni casglu ar gyfer eu cyfraniadau rheolaidd at yr Achos rhowch wybod i'r Trysorydd, Mr Colin Jones neu unrhyw un o'r swyddogion os gwelwch yn dda. Cyfeiriad a rhif ffôn Colin yw Bryn Gelli, Gellihibant, Llanberis -01286 871150.

Gall aelodau eglwysi eraill yr Ofalaeth gysylltu â swyddogion eu heglwys hwy hefyd os ydynt angen amlenni casglu.

## Cyfraniadau

Ar ddechrau blwyddyn newydd, wrth ddiolch am bob cyfraniad ariannol a gafwyd y llynedd at waith eglwysi'r Ofalaeth dyma gyfle hefyd i'ch gwahodd i barhau i gefnogi'r gwaith yn ystod y flwyddyn newydd.

Gwn y byddai trysoryddion yr eglwysi yn falch iawn o dderbyn cyfraniadau rheolaidd yn wythnosol neu yn fisol un ai trwy'r amlenni casglu neu trwy'r banc. Mae cyfraniadau rheolaidd yn hwyluso pethau i'r eglwysi gan sicrhau bod arian digonol o fis i fis ar gyfer cynnal yr holl waith.

## gronyn.org

Cofiwch hefyd bod Gronyn i'w weld ar wefan yr Ofalaeth. Mae'r wefan yn rhoi gwybodaeth am holl gyfarfodydd ac oedfaon yr eglwysi o ddydd i ddydd. Mae'n ddigon rhywydd dod o hyd i'r wefan - [www.gronyn.org](http://www.gronyn.org) (neu [gronyn.wordpress.com](http://gronyn.wordpress.com)).

Mae'n cael ei diweddarau bob wythnos. Ymysg y pethau diweddar mae lluniau o'r Cinio Cawl (ewch i 'Yr Eglwysi' - ac yna 'Nant Padarn').

Bydd lluniau o barti Nadolig y plant yn cael eu gosod mor fuan â phosibl.